O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 429 (Cy. 71)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cerbytffordd Tua'r Dwyrain yng Nghyffordd 20 (Bae Colwyn/Llandrillo-yn-Rhos), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 40 mya a Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

Gwnaed	*20 Chwefror 2012*
Yn dod i rym	*1 Mawrth 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd neu gyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mawrth 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cerbytffordd Tua'r Dwyrain yng Nghyffordd 20 (Bae Colwyn/Llandrillo-yn-Rhos), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 40 mya a Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n achosi'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 09:30 o'r gloch ar 1 Mawrth 2012 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro'n cael eu symud ymaith yn barhaol;